cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

Grant Dysgu Llywodraeth Cymru gyfer Addysg Bellach
Tystiolaeth o Annibyniaeth

Bydd angen i chi anfon tystiolaeth i brofi'ch statws presennol. Defnyddiwch yr wybodaeth isod i ddarganfod beth fydd angen i chi ei anfon.
Rhaid i chi anfon dogfennau gwreiddiol, os byddwch yn anfon llungopïau, bydd hyn yn arwain at oedi. Dychwelir yr holl ddogfennau gwreiddiol atoch cyn gynted ag y bo modd.

Os ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd nesaf eich cwrs, byddwch yn 25 oed neu'n hŷn:	**Bydd angen i chi anfon y canlynol atom:** • eich pasbort dilys; **neu'ch** • tystysgrif geni/mabwysiadu Os ydych chi'n darparu eich manylion pasbort y Deyrnas Unedig dilys yn adran 5 ar y ffurflen gais, nid oes angen i chi anfon eich pasbort atom.
Os ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd nesaf eich cwrs, byddwch yn gyfrifol am blentyn:	**Bydd angen i chi anfon y canlynol atom:** • eich datganiad Budd-dal Plant diweddaraf; **neu** • dystysgrif geni eich plentyn a chadarnhad o'ch cyfeiriad presennol
Os ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs byddwch wedi bod yn cefnogi eich hun yn ariannol am dair blynedd neu fwy:	**Bydd angen i chi anfon y canlynol atom:** • eich P60 yn ddyddiedig o leiaf 3 blynedd yn ôl; **neu'ch** • datganiad Budd-daliadau yn ddyddiedig o leiaf 3 blynedd yn ôl
Os ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs, eich bod wedi bod yn byw/wedi byw yng ngofal Awdurdod Lleol:	**Bydd angen i chi anfon y canlynol atom:** • llythyr ar bapur pennawd gan eich Awdurdod Lleol sy'n cadarnhau eich bod yn byw dan eu gofal. Rhaid i'r llythyr hwn gadarnhau'ch cyfeiriad presennol hefyd, a chael ei lofnodi gan swyddog awdurdodedig o'ch Awdurdod Lleol a chynnwys stamp swyddogol.
Os ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd nesaf eich cwrs, byddwch yn, neu wedi bod, yn briod neu mewn partneriaeth sifil:	**Bydd angen i chi anfon y canlynol atom:** • eich tystysgrif briodas neu bartneriaeth sifil
Os ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs byddwch naill ai wedi ymddieithrio o'ch rhieni neu mae'ch dau riant wedi marw: Mae ymwahanu yn golygu nad ydych wedi cael unrhyw gyswllt gyda'ch rhieni ers o leiaf 12 mis	**Bydd angen i chi anfon cadarnhad atom yn ddyddiedig o fewn y flwyddyn ddiwethaf gan unigolyn proffesiynol y tu allan i'ch teulu sy'n gwybod am eich amgylchiadau.** Gallwch anfon **un** o'r canlynol: • llythyr gan eich gweithiwr cymdeithasol • **os hawlioch Gymhorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm neu Gredyd Cynhwysol pan oeddech dan 18 oed** – llythyr gan eich swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol sy'n dangos eich bod wedi cael budd-daliadau o ganlyniad i'r ffaith eich bod wedi ymwahanu • **os chwalodd eich perthynas gyda'ch rhieni pan oeddech yn yr ysgol neu'r coleg** – llythyr gan weithiwr cynghori/ tiwtor personol/ athro sy'n cadarnhau'ch amgylchiadau